

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Trwyddedu a Rheleiddio held  
at The Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA with remote  
attendance on Dydd Llun, 30ain Ionawr, 2023 at 10.00 am**

**PRESENT:** County Councillor Tony Easson (Chairman)  
County Councillor John Crook (Vice Chairman)

County Councillors: Christopher Edwards, Simon Howarth,  
Alistair Neill, Sue Riley, Dale Rooke, Jackie Strong, and  
Armand Watts

### **OFFICERS IN ATTENDANCE:**

Ruth Rourke	Rheolwr Mynediad Cefn Gwlad
Mandy Mussell	Definitive Map Officer
Shaun Pritchard	Public Rights Of Way Enforcement Officer
Ben Davies	Solicitor
Richard Ray	Paralegal
Wendy Barnard	Swyddog Gwasanaethau Democraidaidd
Gavin Pugh	Assistant Rights of Way Officer

### **Also in attendance:**

County Councillors Jill Bond, Sara Burch And Peter Strong  
Stephen Mayo – Walker  
Peter Rawlings – Walker  
Hillary Baynton – Walker  
Nicholas Park – Landowner  
Chris Carter – Range Warden  
Richard Williams – Range Owner  
Tony Morgan – Secretary Cardiff Small Arms Club Range

### **APOLOGIES:**

Councillors Ann Webb

#### **1. Ethol Is-gadeirydd**

Etholwyd y Cynghorydd Sir John Crook yn Is-gadeirydd..

#### **2. Datganiadau o Fuddiant.**

Gwnaeth y Cynghorydd Sir Tony Easson ddiddordeb personol nad yw'n rhagfarnu yn unol â'r Cod Ymddygiad Aelodau yng nghyswllt pob eitem agenda gan ei fod yn gwybod am faterion ymddygiad gwrthgymdeithasol o amgylch y cais gan Gyngor Sir Fynwy.

#### **3. Deddf Bywyd Gwyllt a Cefn Gwlad 1981 – Adran 53 Gorchymyn Addasu Llwybr Map Diffiniol, A i G, Llwybrau Troed 83 a 84 Cil-y-coed – Mur y Môr.**

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

### Minutes of the meeting of Pwyllgor Trwyddedu a Rheleiddio held at The Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA with remote attendance on Dydd Llun, 30ain Ionawr, 2023 at 10.00 am

Cafwyd adroddiad a chyflwyniad gan y Rheolwr Mynediad Cefn Gwlad a'r Swyddog Map Diffiniol a chawsom ein hysbysu fod gan yr Awdurdod ddyletswydd i adolygu'r Map a'r Datganiad Diffiniol yn barhaus. I gyflawni'r ddyletswydd hon mae angen i'r Cyngor ystyried a phenderfynu achosion gyda golwg ar wneud gorchymyn i newid y Map a Datganiad Diffiniol. Fe wnaeth codi cwestiwn am lwybr brig mur y môr ynghyd ag ymateb y cyhoedd hi'n hanfodol cynnal ymchwil i benderfynu p'un ai, o bwysu a mesur tebygolrwydd, fod hawliau cyhoeddus eisoes yn bodoli drwy'r safle. Esboniwyd cyfraith gyffredin a deddfwriaeth berthnasol. Fe wnaeth y cyflwyniad barhau am 1.5 awr ac yn cynnwys manylion am leoliad, y gofrestrfa tir, gwrthwynebiadau, tystiolaeth o fapiau hanesyddol, map a datganiadau diffiniol, lluniau o'r awyr, lluniau safle a thystiolaeth defnyddwyr.

Diben yr adroddiad yw ystyried yr holl dystiolaeth hanesyddol a ph'un ai i ychwanegu'r llwybrau troed honedig at Fapiau a Datganiad Diffiniol Sir Fynwy. Rhoddir y llwybrau i'w hychwanegu i gymuned Cil-y-coed ar y map gorchymyn.

Yn dilyn y cyflwyniad, gwahoddwyd Aelodau i drafod a rhoi sylwadau a chafodd aelodau o'r cyhoedd gyfle i siarad, fel sy'n dilyn:

- Ni ddylai'r Pwyllgor ystyried angen, niwsans nac addasrwydd, dim ond os penderfynu os yw'r cyhoedd wedi cerdded y llwybr am gyfnod sylweddol.
- Holodd Aelod am llwybrau mynediad i'r maes tanio.
- Roedd aelod o'r cyhoedd sy'n byw yng Nghil-y-coed wedi cerdded y llwybr a dywedodd fod pyst baneri yn gwneud synnwyr.
- Dywedodd aelod o'r cyhoedd ei fod wedi defnyddio llwybr mur y môr iddo ers iddo fod yn 8 oed ac roedd bellach yn 70 oed ac roedd yn llwybr hyfryd.
- Dywedodd aelod o'r cyhoedd fod Llwybr Arfordirol Cymru sy'n rhedeg i fewn ir tir o'r ddau faes tanio yn hyll ac yn llwybr mwy peryglus i gerddwyr a bod mur y môr yn llwybr da.
- Cadarnhaodd aelod o'r cyhoedd y bu llwybr concrit ar fur y môr dan y bwtres am o leiaf 60/70 mlynedd ac mae'n llwybr cerdded poblogaidd a ddefnyddir bob dydd.
- Anghytunai'r Cyngor Sir am yr ardal (oedd yn cynrychioli'r maes tanio) am nifer o agweddau y dystiolaeth tebyg i dderbyn fod y llwybr ar y Map Diffiniol wedi erydu, ar y daliwr bwled ac nid mur y môr ac nid yw gosod y blychau sentri a'r clwydi moch yn cadarnhau'r llwybr gwreiddiol gan eu bod wedi eu gosod i weld cychod sydd yn y maes tanio i sicrhau fod tanio'n dod i ben. Nid yw'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn gwybod y bydd nifer fwy o ymwelwyr ar y maes tanio (G i N). Nid oes unrhyw fudd i wneud y llwybr yn un swyddogol gan y bydd angen adolygu adrannau pellach. Pan mae baneri coch yn cyhwfan, mae cerddwyr yn aros i basio'r daliwyr bwled tra gofynnir am atal tanio a gwirio gynnu i sicrhau nad oes bwledi ynddynt. Nid oes unrhyw is-gyfreithiau am ddefnydd y cyhoedd. Mae swyddogion lechyd a Diogelwch yn ystyried bod y safle yn cael ei reoli'n dda.
- Dywedodd Aelod o'r cyhoedd bod 16 awdurdod lleol a dau barc cenedlaethol wedi ail-alinio'r llwybr Arfordirol i ddilyn arfordir Cymru yn agos a diogel. Dywedwyd na ymgynghorwyd gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn ac mae'r dystiolaeth yn cynnwys lluniau yn groes i ddiogelwch cenedlaethol. Mae map gwres Strava yn anghywir ac mae fersiwn wahanol ar gael. Cyfeiriodd y cyfrifydd ymwelwyr at y maes tanio anghywir. Gwnaed ceisiadau niferus am arwyddion digonol i ddweud fod y llwybr troed wedi eu gau. Yn hanesyddol roedd y llwybr troed ar yr afon ac nid ar dop y lan.
- Wrth gyfeirio at lun gyda dyn yn cerdded ei gi gyda blwch sentri gwag, dywedodd aelod o'r cyhoedd fod hyn ar ddiwrnod pan nad oedd y maes tanio ar agor.
- Gofynnwyd am dystiolaeth gywir o nifer ymwelwyr cyn y gwneir penderfyniad.

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

### Minutes of the meeting of Pwyllgor Trwyddedu a Rheleiddio held at The Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA with remote attendance on Dydd Llun, 30ain Ionawr, 2023 at 10.00 am

- Roedd aelod o'r cyhoedd wedi gweld tanio ar y maes ar ddydd Sul heb unrhyw faneri coch. Dywedwyd fod saethu colomennod clai ac nad oedd angen baneri ar gyfer hynny.

(Gadawodd y Cynghorydd Sir D. Rooke am 11.53am)

- Gofynnodd y Cadeirydd pam mai adran 1.3 milltir oedd yr unig un oedd yn cael ei hystyried. Yr adran o'r llwybr, A i G, yw'r unig lwybr y gofynnir cwestiwn amdani oherwydd y rhwystrau a osodwyd gan Faes Tanio Reiffau Glannau Hafren. Esboniwyd fod llwybr troed ar fur y môr mewn gwahanol leoedd ar hyn o bryd. Mae eisoes lwybr ar draws mur y môr tuag at safle'r Weinyddiaeth Amddiffyn ac nid oes anghydfod am hynny. Dengys tystiolaeth, ar ôl symud mur y môr, bod dau lwybr. Mae pobl yn dal i gerdded ar hyd brig mur y môr ac nid oeddent yn gwybod am y llwybr troed oedd yn flaenorol yn dilyn aliniad yr amddiffynfeydd môr hanesyddol. Mae mwy o fannau ar hyd gogledd a de y llwybr lle bydd angen gorchmynion addasu tebyg. Mae'n ddoethach adolygu'r adran hon gan fod y cyhoedd yn anghytuno ac nid oes mynediad.
- Cadarnhaodd Swyddog Gorfodaeth Mynediad Cefn Gwlad fod gorchmyn rheoleiddio traffig dros dro ar gyfer y llwybr troed presennol o waelod Fisherman's Lane i thu hwnt i faes tanio y Weinyddiaeth Amddiffyn a phen draw y bont droed dros y draffordd. Cafodd arwyddion eu codi a chawsant eu dymchwel yn rheolaidd. Cafodd arwyddion metel eu rhwygo i ffwrdd a bu'n rhaid gosod arwyddion plastig newydd yn lle rhai a dynwyd.
- Gofynnodd Aelod am fynediad i gyfiawnder gan fod tystiolaeth faith gan Gyngor Sir Fynwy lle mae gwrthwynebwyr yn cael pum munud i ymateb a chroesholi. Mae gan swyddogion Cyngor Sir Fynwy dîm cyfreithiol a byddai angen i wrthwynebwyr fynd i gost i'w cynrychioli eu hunain. Esboniodd y Cadeirydd fod terfynau amser siarad yr un fath ag ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio (4 munud gyda rhyddid gan y Cadeirydd).
- Esboniodd y Cadeirydd y cafodd yr adroddiad ei roi allan ar gyfer ymgynghoriad gyda digon o amser i gyflwyno sylwadau; cafodd unrhyw sylwadau a gafwyd eu cynnwys yn y cyflwyniad. Roedd anghydweld am y pwynt hwn.
- Yng nghyswllt arwyddion, awgrymwyd na chafodd arwyddion sylweddol eu codi.
- Dywedodd Aelod fod y dystiolaeth yn dangos yn glir fod y llwybr wedi defnyddio'r llwybr am flynyddoedd lawer a dyma'r fan ar gyfer trafodaeth.
- Dywedodd cynrychiolydd Cyngor Gymuned Rogiet ei fod yn gefnogol iawn i argymhellion Cyngor Sir Fynwy i wneud diwygiad i'r map diffiniol gan nodi'r lluo o dystiolaeth dros lwybr troed hanesyddol ar hyd brig mur y môr ac mae tystiolaeth ei bod yn hawl tramwy cyhoeddus a ddefnyddir yn eang.
- Gofynnodd y Cynghorydd Sir sy'n cynrychioli'r maes tanio os y gallai mur y môr fod yn llwybr caniatool. Mewn ymateb, esboniwyd y codwyd cwestiwn am statws y llwybr oherwydd fod y llwybr wedi'i rwystro gan felly ei gwneud yn ofyniad cyfreithiol i'r Awdurdod ystyried tystiolaeth a phrofion y llwybr dan y Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad.

Rhoddodd y Rheolwr Mynediad Cefn Gwlad grynodedb drwy ddweud "Mae'r Awdurdod yn gweithredu mewn swyddogaeth led-farnwrol. Nid oes unrhyw ofyniad i ddatrys gwrthdaro yn y dystiolaeth. Mae'n rhaid i'r Pwyllgor bwysu a mesur yn ôl yr hyn sy'n debygol ac, os o ystyried popeth, ei bod yn rhesymol dod i'r casgliad fod y dystiolaeth yn dangos y dylid gwneud newid, mae'n rhaid iddo wneud hynny. Mae cyfle pellach i bobl wrthwynebu'r broses. Byddai'r mater terfynol yn cael ei ddatrys drwy wrandawriad cyhoeddus neu ymholiad neu sylwadau ysgrifenedig i Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru".

Wedyn cafodd Aelodau'r Pwyllgor eu hatgoffa gan y Cyfreithiwr y gofynnir iddynt ystyried a phenderfynu ar y dystiolaeth a roddwyd p'un ai a yw hawliau tramwy na chaiff eu dangos ar y Map a'r Datganiad Diffiniol yn bodoli neu y dywedir yn rhesymol eu bod yn bodoli ar frig mur y

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

### **Minutes of the meeting of Pwyllgor Trwyddedu a Rheleiddio held at The Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA with remote attendance on Dydd Llun, 30ain Ionawr, 2023 at 10.00 am**

môr a statws y ffyrdd sy'n llwybrau troed. Pe byddai'r Pwyllgor yn cytuno fod tystiolaeth i awgrymu fod llwybr yn bodoli neu y dywedir yn rhesymol fod llwybr yn bodoli yna byddai'r Pennaeth Cyfraith yn cael ei gyfarwyddo i wneud Gorchymyn Addasu Map Diffiniol fydd yn symud ymlaen i broses ymgynghori o 42 diwrnod lle medrir codi gwrthwynebiadau. Os na fedrir derbyn y gwrthwynebiadau, yna caiff y mater ei anfon ymlaen at Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru.

Cadarnhawyd nad oes unrhyw ddarpariaeth ar gyfer ystyriaeth breifat yng nghyfarfod heddiw.

#### ARGYMHELLION:

1. Gofynnir i Aelodau ystyried y dystiolaeth a roddwyd (Atodiad 3) a chytuno bod hawliau tramwy na ddangosir ar y Map a'r Datganiad Diffiniol "*yn bodoli, neu y dywedir yn rhesymol ei fod yn bodoli*", ar frig mur y môr ac mai llwybrau troed yw statws y ffyrdd.
2. Os cytunir ar hyn, yna i awdurdodi'r Pennaeth Democratiaeth Leol a Gwasanaethau Cyfreithiol i wneud Gorchymyn Addasu Map Diffiniol, dan adran 53(3)(c)(i) ar Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 ar gyfer llwybrau A i G, i'w dosbarthu fel llwybrau troed, rhifau 83 a 84 Cil-y-coed (354), ac i gadarnhau'r gorchymyn os na dderbynnir gwrthwynebiadau.

#### PENDERFYNIAD:

Yn dilyn pleidlais, roedd y penderfyniad o blaid yr argymhellion. Gall Cyngor Sir Fynwy yn awr wneud y Gorchymyn Addasu Map Diffiniol ac unwaith y cafwyd y gorchymyn bydd cyfnod o 42 diwrnod i dderbyn wrthwynebiadau.

**The meeting ended at 12.21 pm**